



Cyngor Sir y Fflint

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2019 - Mawrth 2020

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu
yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Gwasanaethau Corfforaethol

Neuadd y Sir

Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 6NG

☎ Rhif ffôn: : - 01352 702131

E-bost: busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad	3
2. Cynnydd	4
3. Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb	5
4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu (gan gynnwys Cyflog Cyfartal)	11
5. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	15
6. Hyfforddiant	16
7. Caffael	17
8. Casgliad	17
Atodiadau	
1. Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	

Crynodeb Gweithredol

Dyma'r adroddiad blynyddol terfynol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 Cyngor Sir y Fflint ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn ystod 2019/20 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni ers 2016. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw lleihau anghydraddoldebau a brofir gan bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Bu gwelliannau mewn gwasanaethau ac rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni statws "Gweithio tuag at fod yn gyngor Dementia Gyfeillgar" ac wedi llwyddo i ennill achrediad ar gyfer yr ymgyrch "Rhuban Gwyn". Rydym wedi cefnogi interniaethau ar gyfer naw oedolyn ifanc ag anabledd dysgu drwy Brosiect SEARCH. Cynyddodd Theatr Clwyd fynediad i'r celfyddydau i bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae enghreifftiau'n cynnwys eu gwaith gyda "Sorted", y tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc, i gynnig sesiynau creadigol i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Buont hefyd yn gweithio gyda City of Sanctuary, i gynnal sesiwn greadigol ar gyfer ffoaduriaid ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth leuenctid wedi datblygu grŵp ieuencid i gefnogi pobl ifanc sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT).

Rydym yn cydnabod rhai llwyddiannau posibl ond mae angen i ni wneud cynnydd o hyd, yn enwedig yng ngoleuni'r materion a godwyd ynghylch meysydd anghydraddoldeb penodol a amlygwyd gan effaith Covid-19. Byddwn yn cynnwys y rhain yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 newydd a byddwn yn monitro cynnydd yn fwy effeithlon drwy ein system rheoli perfformiad.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet dros Reolaeth
Gorfforaethol ac Asedau

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2020

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) (SEP) y Cyngor yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb ac yn rhoi crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus i

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt; a

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

1.3 Y nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb yw:

Oedran	Anabledd
Ailbennu Rhywedd	Priodas a Phartneriaeth Sifil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Hil
Crefydd a Chred	Rhyw
Cyfeiriadedd Rhywiol	

Nodir ymrwymiadau'r Cyngor i'r Gymraeg sef i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn yr [Hysbysiad Cydymffurfio â'r Gymraeg](#). Mae'r camau rydym wedi'u cymryd i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol dros y Gymraeg wedi'u cynnwys mewn [adroddiad](#) ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog
- cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a pha mor hir y mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i gyflawni pob amcan
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl
- ymgysylltu â phobl o grwpiau gwarchoddedig
- asesu effaith polisiau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchoddedig
- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb

Diben yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Mae'r Cyngor hefyd wedi

gweithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i nodi **amcanion cydraddoldeb rhanbarthol**. Mae'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a lleol a'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i nodi'r amcanion i'w gweld [yma](#).







1.4 Ochr yn ochr â'r [SEP](#) cefnogir gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb gan [bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb](#), a Chanllaw Iaith Clir a gyflwynir fel rhan o wahanol ddogfennau'r Cyngor megis Cynllun y Cyngor a Strategaeth Cwsmeriaid.

2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ym mis Ebrill 2016. Mae'r cynllun gweithredu i fodloni'r SEP yn Atodiad 1; mae hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed i gyflawni pob cam gweithredu.

2.2 Mae'r tabl canlynol yn nodi ein perfformiad tuag at gyflawni'r camau a bennwyd gennym ar gyfer pob amcan, rydym wedi asesu ein hunain gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- C** **Cynnydd Cyfyngedig** - oedi mewn gweithgarwch a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn
- A** **Cynnydd Boddhaol** - peth oedi o ran gweithgarwch a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn yn fras
- G** **Cynnydd Da** - gweithgareddau wedi'u cwblhau'n brydlon, ar y trywydd iawn

Amcan Cydraddoldeb	Cynnydd
Lleihau anghydraddoldebau iechyd	
Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyflawni eu potensial llawn	
Lleihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth (Ambr gan fod gwaith ar adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar y gweill)	
Lleihau anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol	
Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais	
Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd	

3. Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2019/20

3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein cyflawniadau allweddol o ran cyflawni ein chwe amcan cydraddoldeb yn ystod 19/20.

Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Yn ystod 2019/20:

- Cawsom gydnabyddiaeth fel cyngor sy'n 'Gweithio i fod yn Dementia Gyfeillgar' a sefydlwyd grŵp ar draws y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i weithio tuag at fod yn gyngor Dementia Gyfeillgar.
- Parhawyd i gynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o ddementia yn ein cymunedau.
- Darparwyd hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion Sipsiwn a Theithwyr i swyddogion allweddol yn ein gwasanaethau Tai.
- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Traws i hyrwyddo ymwybyddiaeth o anghenion y gymuned Draws.
- Nifer yr oedolion dros 65 oed a gafodd gymorth i fyw gartref oedd 40 i bob 1,000 o'r boblogaeth.
- Nifer yr oedolion dros 65 oed a gefnogwyd mewn cartrefi gofal oedd 14 i bob 1,000 o'r boblogaeth.
- Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac a oedd yn gallu symud i becyn gofal is neu ddim gofal am o leiaf 6 mis oedd 70%.
- Cyflwynodd ein tîm Ynni Domestig 2,175 o fesurau effeithlonrwydd ynni i eiddo yn y Sir ar draws pob deiliadaeth. Targedwyd cymorth yn bennaf at aelwydydd sy'n profi tlodi tanwydd. Roedd y buddsoddiad hwn hefyd yn cefnogi 13 o swyddi a phedair prentisiaeth.
- Parhawyd i gefnogi cymunedau i ddod yn Ystyriol o Oedran. Ar hyn o bryd mae Coed-llai a Phontblyddyn yn ei thrydedd flwyddyn o ddatblygu Cymuned sy'n ystyrio o oedran ac yn ogystal â'i chaffi cymunedol wythnosol mae wedi gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Derwenfa a gwasanaeth arlwyio Newydd i ddatblygu clwb cinio bob mis.
- Cafwyd cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad pobl hŷn yn y gymuned i leihau'r risg o unigrwydd ac arwahanrwydd ym Mhen-y-ffordd ger Treffynnon gyda chefnogaeth Ysgol Derwenfa. Sefydlwyd bore coffi misol, cymerodd staff a disgyblion ran mewn sesiynau Ymwybyddiaeth o Dementia ac mae cynlluniau ar waith i gynnal hyfforddiant ar dabledi digidol mewn partneriaeth â Choleg Cambria i wella sgiliau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn y gymuned.
- Comisiynwyd ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i anghenion Teithwyr, cafodd yr ymchwil hwn ei ohirio yn ystod Covid-19. Nod yr ymchwil yw deall yn well anghenion iechyd Teithwyr sydd fel arfer yn defnyddio gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru, neu'n byw yno.
- Sicrhawyd bod cynhyrchion misglwyf ar gael i bob ysgol (gan gynnwys ysgolion cynradd) a chlybiau ieuenctid.

Amcan 2: Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyflawni eu potensial llawn

Yn ystod 2019/20:

- Datblygwyd system electronig ar gyfer cofnodi ac adrodd am systemau bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion
- Codwyd ymwybyddiaeth o fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn ystod wythnos gwrth-fwlio
- Roedd hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern a Llinellau Cyffuriau ar gael i weithwyr ysgol.
- Comisiynwyd ¹Show Racism the Red Card i gyflwyno gweithdai gwrth-hiliaeth i fyfyrwyr Blwyddyn 8 ym mhob ysgol uwchradd a darparwyd sesiynau i staff a Llywodraethwyr ysgolion i gefnogi ysgolion i barhau i gyflwyno'r pecyn hyfforddi.
- Comisiynwyd hyfforddiant "*Getting on Together*" (GoT) i athrawon o'n hysgolion cynradd. Nod y digwyddiad hyfforddi oedd rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r hyder i athrawon gyflwyno rhaglen 'Herio Eithafiaeth' *Getting on Together* CA2 yn ystod blwyddyn academiaidd 2019/2020 i ddisgyblion blwyddyn 6.
- Roedd merched yn dal i berfformio'n well na bechgyn yn yr ysgol sy'n adlewyrchu'r duedd genedlaethol. Cyflawnodd 47.28% o fechgyn 5 gradd TGAU A* - C o'i gymharu â 60.08% o ferched
- Cynigiwyd Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol "SHEP". Rhaglen yn yr ysgol yw hon sy'n darparu prydau iach, addysg bwyd a maeth, gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf. 'Bwyd a Hwyl' yw'r brand a ddefnyddir i hyrwyddo'r clybiau i blant a theuluoedd. Cynhaliwyd y rhaglen am bedwar diwrnod yr wythnos yn ystod tair wythnos gyntaf y gwyliau ar ddau safle ac fe'i anelwyd at ddisgyblion blwyddyn 6 o ysgolion cynradd y dalgylch a disgyblion blwyddyn 7 presennol yn yr ysgolion uwchradd.

Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth

Yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Cwblhawyd Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol gan adolygu'r gwahaniaethau cyflog rhwng dynion a merched, gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl a rhwng gweithwyr o wahanol gefndiroedd ethnig. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [ein gwefan](#). Ceir crynodeb yn adran 4.8.
- Ni chafwyd unrhyw gwynion am fwlio ac aflonyddu gan weithwyr yn ystod 2019/20.
- Ni chafwyd unrhyw gwynion am wahaniaethu gan ymgeiswyr am swyddi na gweithwyr yn ystod 2019/20.
- Cefnogwyd interniaethau ar gyfer naw oedolyn ifanc ag anabledd dysgu drwy Brosiect SEARCH. Rydym yn gweithio gyda Hft (elusen anabledd dysgu genedlaethol), Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Choleg Cambria i roi popeth

¹Mae Show Racism the Red Card yn elusen addysgol gwrth-hiliaeth.

sydd ei angen ar bobl ifanc ag anableddau dysgu i sicrhau cyflogaeth gystadleuol yn eu cymuned drwy Brosiect SEARCH. Mae Prosiect SEARCH yn cynnig amrywiaeth o leoliadau gwaith sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau newydd, wedi'u cyfuno â sesiynau ystafell ddosbarth i geisio magu hyder ac i ddiwallu unrhyw anghenion hyfforddi. Mae'r garfan gyntaf o saith myfyriwr wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac maent bellach yn symud i waith cyflogedig.

- Drwy'r timau mentora cyflogaeth yn y Gwasanaeth Busnes, maent yn helpu i gefnogi 253 o gyfranogwyr i wella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol

Yn ystod 2019/20:

- Gwnaed 4 atgyfeiriad i'r lloches cam-drin domestig ar gyfer dynion
- Cwblhawodd 44.64% o weithwyr Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol 'Lefel 1 e-ddysgu Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' Llywodraeth Cymru.
- Cafwyd pedwar atgyfeiriad i'r lloches cam-drin domestig ar gyfer dynion.
- Cymerwyd rhan yn Ymgyrch y Rhuban Gwyn i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched a gwnaed cais llwyddiannus am ail-achredu gyda menter y Rhuban Gwyn.
- Hyrwyddwyd ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern, Llinellau Cyffuriau ac Prevent drwy hyfforddiant a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, mynychodd 290 o weithwyr y sesiynau hyn.
- Cafodd pob gyrrwr tacsï hyfforddiant diogelu fel rhan o'u gofynion trwyddedu. Gall gyrrwyr tacsï fod yn llygaid a chlustiau yn y gymuned a chael y cyfle i weld a chlywed pethau na all eraill eu gweld/clywed; mae'n bwysig eu bod yn gallu adnabod materion diogelu a gwybod sut i adrodd amdanynt.
- Cymerwyd rhan mewn wythnos troseddau casineb gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i godi pwysigrwydd rhoi gwybod am droseddau casineb, roedd hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau hyrwyddo mewn colegau lleol gyda chynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru.
- Cafwyd 168 o adroddiadau am ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn y cyfnod 2019/20.

Math o ddigwyddiad	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Yn seiliedig ar hiliaeth	33	37	84	76	99
Homoffobig	6	6	26	29	40
Yn gysylltiedig ag Anabledd	6	9	8	14	20
Thrawsffobig	0	1	0	1	4
Crefyddol	4	6	5	9	5
Cyfanswm	49	59	123	129	168

- Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSen) wedi cydweithio i annog pobl i adrodd am droseddau casineb yn

ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref bob blwyddyn. Hefyd cyhoeddwyd negeseuon trydar a negeseuon Facebook ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus eraill i annog pobl i adrodd am droseddau casineb. Er y bu cynnydd mewn adroddiadau am droseddau casineb, teimlir o hyd bod pobl yn gyndyn o adrodd amdanynt ledled Gogledd Cymru; Byddwn yn dal ati i annog pobl i adrodd am y troseddau hyn. Mae'r cynnydd mewn adroddiadau yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol. Mae troseddau casineb wedi'u cynnwys fel eitem sefydlog yn Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

- Codwyd y Faner Draws ar 20 Tachwedd i goffáu Dydd y Cofio Trawsryweddol er cof am yr holl bobl Draws sydd wedi colli eu bywydau i drais Trawsffobig.



Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Marion Bateman yn dal baner Traws gyda'r Cynghorydd Billy Mullin, aelod o'r Cabinet a'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb gyda chefnogaeth aelodau etholedig, gweithwyr a chynrychiolwyr y gymuned Draws ar 20 Tachwedd 2019.

- Codwyd baner yr Enfys gennym yn ystod mis Chwefror 2020 i ddathlu Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol (LGBT) a hyrwyddo gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o faterion LGBT.



Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Marion Bateman a'r Cynghorydd Billy Mullin Aelod o'r Cabinet a'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb yn dal baner yr Enfys gyda chefnogaeth aelodau o'n Rhwydwaith Gweithwyr LGBT, y gymuned LGBT, a'r Prif Weithredwr.

Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais

Yn ystod 2019/20:

- Parhawyd i gynnal cyfarfod â budd-ddeiliaid i adolygu asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd gan wasanaethau.
- Datblygodd y Gwasanaeth Ieuencid grŵp Ieuencid LGBT.
- Cefnogwyd 580 o bobl gyda thaliadau uniongyrchol gan roi dewis a rheolaeth iddynt dros y ffordd y maent yn derbyn eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynrychioli dros 40% o bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol "yn y cartref" yn Sir y Fflint.
- Cyfrannodd grŵp ffocws ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia at ddatblygu canllawiau i ddefnyddwyr ar gyfer y map o adnoddau ar gyfer pobl â dementia sydd ar gael ar ein gwefan, gan helpu pobl i wneud y mwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Cymunedau Dementia Gyfeillgar Sir y Fflint ym mis Gorffennaf 2019, roedd gyfle i mi ymgysylltu â chymunedau, unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ac i lywio camau gweithredu ar gyfer ein cynllun Dementia.

Amcan 5: Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Yn ystod 2019/20:

- Lleihawyd nifer y diwrnodau i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i gefnogi addasiadau i gartrefi gan alluogi pobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Agorwyd Canolfan Ddydd newydd gwerth £4 miliwn ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r Ganolfan Ddydd newydd, o'r enw Hwb Cyfle yn lleoliad modern, hygyrch a bywiog ar gyfer darparu gwasanaethau dydd o ansawdd uchel mewn partneriaeth â Hft. Mae'r Ganolfan hefyd yn lleoliad hygyrch gyda chyfleusterau dan do ac awyr agored i gynnal gweithgareddau sy'n gwella iechyd a lles y gymuned ehangach.
- Dechreuwyd adolygiad o'r defnydd o rwystrau ffrâm "A" ar lwybrau arfordirol er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl.
- Mwy o fynediad i'r celfyddydau drwy Theatr Clwyd:
 - Mewn partneriaeth â Parkinson's UK, cynhaliodd Theatr Clwyd raglen ddawns a cherddoriaeth 20 wythnos ar gyfer pobl â chlefyd Parkinson. Cymerodd 23 o gyfranogwyr o bob rhan o Gymru ran yn y rhaglen.
 - Cynigiwyd sesiynau "Gelf o'r Gadair Freichiau" bob wythnos i bobl sy'n byw gyda dementia
 - Gweithiwyd mewn partneriaeth â "We Mind the Gap" i gynnis cyfle i 10 merch ifanc archwilio sut deimlad yw bod yn ferch ifanc yn y gymdeithas heddiw. Mae "We Mind the Gap" yn darparu hyfforddeiaethau i ferched ifanc sydd wedi cael cyfleoedd cyfyngedig mewn bywyd.
 - Addawodd Theatr Clwyd gyfraniad ariannol at Dasglu Hil a Diwylliant Cymru.
 - Gweithiwyd gyda City of Sanctuary, cynhaliodd y theatr sesiwn greadigol i ffoaduriaid ifanc a'u teuluoedd
 - Gweithiwyd gyda "Sorted", tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc, i gynnis sesiynau creadigol i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.
 - Sefydlodd Theatr Clwyd "Fuse" i weithio gyda phobl ifanc ag anghenion ychwanegol i archwilio eu creadigrwydd a dysgu am greu theatr.
- Mae tudalennau penodol ar ein gwefan sy'n darparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn lleol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Bydd y tudalennau'n parhau i gael eu diweddarw wrth i ni ddysgu mwy am gefnogaeth leol. Rydym hefyd wrthi'n mapio'r Cymunedau, lleoliadau, busnesau ac ysgolion Dementiau Gyfeillgar, ar ein map rhyngweithiol, y byddwn yn ei ychwanegu at y dudalen.
- Rydym bellach yn awyddus i wella'r tudalennau gyda map rhyngweithiol, sy'n cynnwys gwybodaeth am leoliadau busnesau caffi cof ac ysgolion y cydnabyddir eu bod yn gweithio tuag at fod yn lleoliadau cymunedol sy'n ddementia gyfeillgar a lleoliadau cymunedol defnyddiol eraill.

4. Coladu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gasglu a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, mae'r holl wasanaethau'n wahanol ac nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael ei chasglu ar bob system. Nid oes digon o ddata ar gael i'w ddadansoddi'n fanwl ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae'n gam parhaus i wella'r broses o gasglu data ar draws gwasanaethau.

Daw'r categorïau a ddefnyddir i goladu data amrywiaeth o [Gyfrifiad 2011](#) mae'r wybodaeth hon ar gael. Fodd bynnag, nid yw data ar yr holl nodweddion gwarchodedig yn cael ei gasglu drwy'r Gyfrifiad, er enghraifft, trawsryweddol a chyfeiriadedd rhywiol. Mae gan rai cymunedau niferoedd cymharol isel sy'n gwneud dadansoddiad ystadegol yn anodd, yn yr achosion hyn, defnyddir canlyniadau ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol.

4.2 Er gwaethaf yr heriau o ran coladu data, gwnaed gwelliannau i'n prosesau. Rydym bellach yn:

- cofnodi manylion ethnig defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn bellach yn faes gorfodol ar gronfa ddata cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol, PARIS.
- monitro proffil tenantiaid, ymgeiswyr digartrefedd a phobl ar y rhestrau aros am dai.
- cofnodi proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion.

Proffil disgyblion ysgolion cynradd yn ôl cefndir ethnig

	2016		2017		2018		2019		2020	
Cefndir Ethnig	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Pobl Dduon a Lleiafrifodd Ethnig	384	2.8%	409	2.9%	425	3.03%	459	3.2%	464	3.39%
Gwyn Prydeinig	12612	90.5%	12684	90.4%	12680	90.27%	12447	89.21%	12241	89.53%
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	671	4.8%	763	5.4%	752	5.35%	791	5.67%	795	5.81%
Gwybodaeth heb ei Chael	6	0.00%	6	0.0%	56	0.40%	136	0.97%	26	0.19%
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod)	60	0.4%	48	0.3%	44	0.31%	32	0.23%	24	0.18%
Ni chofnodwyd gan yr Ysgol	210	1.5%	120	0.9%						

Erail					89	0.63%	87	0.62%	122	0.89%
Cyfanswm	13943	100%	14030	100%	14046	100%	13952	100%		

Proffil disgyblion ysgolion uwchradd yn ôl cefndir ethnig

	2016		2017		2018		2019		2020	
Cefndir Ethnig	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Pobl Dduon a Lleafrifodd Ethnig	384	2.80%	409	2.90%	425	3.03%	459	3.20%	464	3.39%
Gwyn Prydeinig	12612	90.50%	12684	90.40%	12680	90.27%	12447	89.21%	12241	89.53%
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	671	4.80%	763	5.40%	752	5.35%	791	5.67%	795	5.81%
Gwybodaeth heb ei Chael	6	0.00%	6	0.00%	56	0.40%	136	0.97%	26	0.19%
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod)	60	0.40%	48	0.30%	44	0.31%	32	0.23%	24	0.18%
Ni chofnodwyd gan yr Ysgol	210	1.50%	120	0.90%						
Erail					89	0.63%	87	0.62%	122	0.89%
Cyfanswm	13943	100%	14030	100%	14046	100%	13952	100%	13672	100.00%

4.3 Gwnaed ymchwil gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSen), rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i helpu i nodi'r anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau gwarchoddedig. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'w defnyddio gan wasanaethau.

4.4 Mae NWPSen wedi datblygu ffurflen monitro cydraddoldeb enghreifftiol gyda nodyn Cyfarwyddyd Deg Awgrym Da. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrrff cyhoeddus ledled Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol.

4.5 Caiff data ansoddol ei goladu drwy ddulliau eraill fel arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint

- Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cynghorau Ysgol
- Stonewall Cymru
- Grŵp trawsryweddol unigryw
- Grŵp Gweithredu 50 a mwy

Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol i ganfod materion yn gynnar, derbyn adborth a barn ar unrhyw gynlluniau a'u cynnwys mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

4.6 Defnyddio gwybodaeth i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol

Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu â phroffil y gymuned i nodi meysydd o or/tangynrychiolaeth neu dan gyflawniad sy'n galluogi gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae defnyddio data fel hyn yn helpu gwasanaethau i nodi meysydd posibl a gwirioneddol o wahaniaethu yn ogystal â nodi'r cyfle i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy osod targedau gwella a fydd yn cael eu cynnwys yn y [SEP](#). Defnyddiwyd y wybodaeth hon hefyd i nodi [amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor](#).

Defnyddir cymariaethau o lefelau bodlonrwydd a chwynion a gwybodaeth gan grwpiau ffocws hefyd i nodi unrhyw feysydd o wahaniaethu posibl a gwirioneddol a meysydd o densiynau cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at nodi cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da.

4.7 Gwybodaeth am Gyflogaeth

Cyhoeddir proffil llawn o amrywiaeth y gweithlu ar wahân ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol yn ôl dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn i'w weld ar ein gwefan.

Mae'r holl ddata ar y system Adnoddau Dynol yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig. Wrth i fodiwlau pellach o'r system Adnoddau Dynol gael eu gweithredu a'r meysydd gael eu llenwi, bydd adroddiadau ychwanegol ar gael yn y dyfodol, er enghraifft, cwynion a champau disgyblu a cheisiadau am hyfforddiant.

Cafwyd gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr Undebau Llafur yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Undebau Llafur a thrwy'r rhwydweithiau gweithwyr.

Defnyddir gwybodaeth ansoddol a meintiol i gyfrannu at asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol ac i nodi meysydd o anghydraddoldebau posibl/gwirioneddol y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

4.8 Cyflog Cyfartal

Cyhoeddir yr archwiliad cyflog cyfartal ar ein gwefan ac mae ar gael [yma](#). Mae'n ofynnol i ni osod amcan ar gyfer cyflog. Dengys ymchwil genedlaethol fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n dal i fodoli. Ceir crynodeb o'r Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol ar gyfer gwahanol nodweddion diogelwch isod:

Dynion a Merched

- At ei gilydd, y cyflog cyfartalog ar gyfer merched ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw **£25,322.99** a'r cyflog cyfartalog ar gyfer dynion ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw **£29,242.37**, gan roi bwlch cyflog **at ei gilydd** rhwng y rhywiau o **13.40%**. Gwneir hyn yn defnyddio'r dull **cymedrig** o gyfrifo'r cyflog cyfartalog. Mae'n osyngiad o 2018 pan adroddwyd **bod y blwch cyflog yn 16.22%**.
- Yn defnyddio'r **dull canolrifol**, y cyflog cyfartalog ar gyfer dynion ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw **£25,295** a'r cyflog cyfartalog ar gyfer merched ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw **£19,953**, gan roi bwlch cyflog at ei gilydd rhwng y rhywiau o **21.12%**. Mae hwn yn gynnydd bychan i'r bwlch cyflog canolrifol yn 2018 (20.36%), mae hyn yn debygol o fod oherwydd y raddfa G12 newydd ar raddfeydd cyflog NJC.

Gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl

Dadansoddiad o weithwyr anabl o gymharu â gweithwyr eraill

	Nifer		Canran %		Cyflog FTE cyfartalog	
	2018	2019	2018	2019	2018	2019
Anabl	127	158	1.91%	2.35%	£25,563	£25,011.34
Ddim yn Anabl	3849	4043	57.89%	60.01%	£26,009	£26,664.95
Gwell ganddynt beidio â dweud, neu heb ddatgelu	2673	2536	40.20%	37.64%	£23,925	£26,396.20

Sylwer: Ni fu'n bosib rhoi darlun ystyrlon o gymhariaeth graddfa wrth raddfa ac o wahanu galwedigaethol oherwydd y niferoedd isel, fel y nodwn uchod

- Mae bwlch cyflog cymedrig o 6.13%% rhwng yr holl staff ar draws y Cyngor a ddywedodd fod ganddynt anabledd a rhai a ddywedodd nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn golygu bod cyflog cyfartalog person anabl ar gyfartaledd 6.13% yn is na pherson heb fod yn anabl. Fodd bynnag ni ystyriwn fod y data yma'n drylwyr oherwydd y gyfran uchel o staff (37.64%) na ddatgelodd wybodaeth am eu statws anabledd

Cefndir ethnig

- Mae nifer helaeth o staff a ddewisodd beidio â datgelu eu tarddiad ethnig neu na wnaethant roi unrhyw wybodaeth am eu tarddiad ethnig (34.73%). Mae hyn wedi gwella ychydig ers 2018, pan oedd y ffigur yn 37.39% ond mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gyflawni dadansoddiad trylwyr o gyflogau yn ôl

tarddiad ethnig. Dywedodd 4397 mai 'gwyn' oedd eu tarddiad ethnig (65.26%) a dywedodd 26 mai BME (Du neu Leiafrifol Ethnig) (0.38%) oedd eu tarddiad ethnig. Dylid nodi fod proffil 18 ethnig Cyngor Sir y Fflint yn 98.5% gwyn (cyfrifiad 2011 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

- Mae'r bwlch cyflog tarddiad ethnig yn -12.87% sy'n dangos bod gweithwyr BME yn ennill, ar gyfartaledd, 12.87% yn fwy na'r rheiny sydd wedi nodi mai Gwyn yw eu tarddiad ethnig. Fodd bynnag, oherwydd nad yw nifer uchel o weithwyr wedi nodi eu hethnigrwydd neu nid oes gennym y wybodaeth, ni ystyrir hyn yn ddigon trylwyr ar gyfer data ystyrion.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- Canran yr holl staff a ddywedodd fod eu cyfeiriadedd rhywiol yn heterorywiol oedd 39.59%. Dywedodd 0.79% eu bod yn ddeurywiol / hoyw / lesbiaid, roedd yn well gan 2.57% beidio â dweud ac mae cyfeiriadedd rhywiol 56.89% yn anhysbys. Nid yw'r data sydd gan y Cyngor ar Gyfeiriadedd Rhywiol yn ddigon trylwyr i adrodd ar fylchau cyflog.

Crefydd

- Dywedodd 31.33% o'r holl staff mai Cristnogaeth oedd eu crefydd neu gred a dywedodd 0.19% fod ganddynt grefydd neu gred arall (Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd neu Sikhaidd). Dywedodd 16.40% nad oes ganddynt unrhyw grefydd, roedd yn well gan 2.52% beidio â dweud ac mae crefydd neu gred 48.36% yn anhysbys. Nid yw'r data sydd gan y Cyngor ar Grefydd yn ddigon trylwyr i adrodd ar fylchau cyflog.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld [yma](#)

Mae'r camau gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf yn cynnwys:

- Cynnal ymgyrch wedi'i thargedu i ddiweddarau ein data, wrth anfon atodiad i gontractau byddwn yn anfon holiadur amrywiaeth i'w gwblhau a'i ddychwelyd. Byddwn yn cynnal ymgyrch gyfathrebu drwy'r fewnwyd yn gofyn i weithwyr ddiweddarau eu manylion.
- Paratoi nifer o astudiaethau achos sy'n nodi gwasanaethau lle mae cyfansoddiad tîm neu wasanaeth yn gwyro oddi wrth stereoteipiau traddodiadol fel rhan o ymgyrch "herio stereoteipiau rhyw". Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol sy'n parhau i fod yn ffactor pwysig wrth ddylanwadu ar fylchau cyflog rhwng dynion a merched.

5.0 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg (EIA) yw un o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i brif ffrydio cydraddoldeb ac i gefnogi gwasanaethau i nodi targedau cydraddoldeb penodol.

5.2 Datblygwyd templed electronig (Asesiad Effaith Integredig)(IIA) i gasglu'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer amryw o asesiadau effaith - gan gynnwys yr amgylchedd, cydraddoldeb, iechyd, tlodi a'r iaith Gymraeg. Sefydlwyd grŵp Sicrhau Ansawdd IIA (sy'n cynnwys aelodau sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchoddedig) i nodi effaith andwyol bosibl ac awgrymu atebion. Mae'r grŵp hefyd yn gweithredu fel "rhwyl ddiogelwch" i sicrhau bod barn pobl o bob math o nodweddion gwarchoddedig yn cael ei hystyried. Y nod yw sicrhau bod y broses IIA yn gadarn ac yn drylwyr ac yn cyfrannu at wella canlyniadau i gwsmeriaid a gweithwyr. Mae nodiadau canllaw ar gael ar gyfer pob nodwedd warchoddedig i gefnogi awduron yr IIA.

5.3 Rydym wedi cwblhau asesiadau effaith ar ddad-greu parth cerddwyr Stryd Fawr Treffynnon a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020/24. Rydym hefyd wedi sgorio asesiad effaith ar y defnydd o rwystrau ffrâm "A" ar lwybrau llwybrau arfordirol.

5.4 Rydym yn gweithio gyda NWPSEN i ddatblygu un fframwaith asesu'r effaith ar gydraddoldeb i'w ddefnyddio gan gyrrff cyhoeddus yng ngogledd Cymru gyda'r nod o ddatblygu dull gweithredu safonol, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth.

6.0 Hyfforddiant

6.1 Ceir manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth am gydraddoldeb yn y [SEP](#). Mae dau becyn e-ddysgu yn benodol ar gydraddoldeb:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cydraddoldeb yn y Gweithle

Cefnogir y rhain gan becynnau e-ddysgu ar:

- Ymwybyddiaeth traws
- Caethwasiaeth fodern
- Troseddau casineb

6.2 Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- rhaglen y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) ar bob lefel.
- Modiwlau e-ddysgu ar gyfer rheolwyr newydd.
- Gweithdai sefydlu ar gyfer aelodau etholedig newydd.

6.3 Yn ystod 2019/20 yn ogystal â'r rhaglenni e-ddysgu, cyflwynwyd gweithdai ar:-

- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth i ysgolion gan Show Racism the Red Card
- Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Caethwasiaeth Fodern gan gynnwys hyfforddiant Llinellau Cyffuriau gan Heddlu Gogledd Cymru. Cyfeiria Llinellau Cyffuriau at gludo cyffuriau anghyfreithlon o un ardal i'r llall, yn aml ar draws ffiniau'r heddlu ac awdurdodau lleol (er nad yn unig), fel arfer gan blant neu bobl sy'n agored i niwed sy'n cael eu gorfodi gan gangiau.
- Hyfforddiant gwrth-derfysgaeth "Prevent" gan Heddlu Gogledd Cymru i weithwyr sy'n wynebu'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn deall eithafiaeth a

radicaleiddio, yn gallu adnabod arwyddion a gwybod sut i adroddiad am ddigwyddiad.

- Mae ysgolion yn Sir y Fflint wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno gweithdai GoT mewn ysgolion. Mae'r rhain yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r hyder i athrawon gyflwyno'r rhaglen 'Herio Eithafiaeth'.
- Ymwybyddiaeth o ddiogelu - cynyddu ymwybyddiaeth o faterion diogelu a sicrhau bod gweithwyr yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i adrodd am ddigwyddiad.
- Hyfforddiant trawsymwybyddiaeth - y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu'r gymuned Draws a deall sut i ddatblygu gwasanaethau traws-gynhwysol.

7.0 Caffael

7.1 Ceir manylion ynglŷn â sut y mae cydraddoldeb yn cael ei gynnwys yn y broses gaffael yn y [SEP](#). At hynny, mae cymalau budd cymunedol wedi'u cynnwys mewn contractau dros £1 filiwn; mae contractau o £10,000 yn cynnwys elfen o fuddion cymunedol yn y dulliau sgorio. Rydym wedi cymeradwyo strategaeth newydd i gynyddu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir o'n gweithgarwch caffael. Rydym wrthi'n ceisio canfod meddalwedd i alluogi gwasanaethau, cyflenwyr a darparwyr trydydd sector i gofnodi'n well y gwerth cymdeithasol y maent yn ei sicrhau. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cymorth i bobl ddi-waith, arferion cyflogaeth deg, defnyddio'r isafswm cyflog.

7.2 Rydym wedi ymrwmo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym wedi ymrwmo i gyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg. Rydym yn cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol fel rhan o'r ymrwymiad hwn.


8.0 Casgliad

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod coladu rhywfaint o ddata i fonitro cynnydd wedi bod yn heriol. Ein blaenoriaeth yw gweithredu ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24](#) newydd a pharhau i fynd i'r afael â meysydd anghydraddoldeb penodol.

Diolch am ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/20.

Croesewir safbwyntiau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol.



Cysylltwch â ni ar:





Rhif ffôn: 01352 702131 



E-bost:  corporatebusiness@flintshire.gov.uk



Atodiad 1 Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016- 2020





Diweddariad 2019/20





Amcan 1 Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd			
Tasg	Pwy Dyddiad	Mesur	Cynnydd
Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i leihau amseroedd aros i blant sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	Nifer y Plant sy'n Derbynn Gofal sy'n aros i gael mynediad i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)	Mae camau adfer sy'n cael eu cymryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi cynnwys safoni dogfennau a phrosesau ar draws Gogledd Cymru. Dilewyd y mesur hwn gan mai cyfrifoldeb BIPBC ydyw
Ystyried darparwyr eraill ar gyfer iechyd meddwl plant	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu		
Cynnwys yr angen am asesiadau iechyd o fewn hyfforddiant Gofal Maeth	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	% yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn graddfeydd amser	. Cwblhawyd . 
Cynnwys trefn gofrestru brydlon gyda Meddyg Teulu (GP) a deintydd yn PARIS (system asesu gofal)	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu	98.5% wedi cofrestru gyda meddyg teulu.
		% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 3 mis i gofrestru	. Gwelwyd 75.% o blant gan ddeintydd o fewn 3 mis i dderbyn gofal. 100% o fewn 4 mis.




			<p>Mae cofnodi'r rhai sy'n cofrestru â meddyg teulu a chofrestru â deintydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau asesu diwygiedig ar gyfer plant, a weithredwyd ym mis Mawrth 2019.</p> <p></p>
Trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth Traws blynyddol i gyd-fynd â dydd y cofio Traws	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant	nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth Trawsryweddol	<p>Cynhaliwyd 2 weithdy yn 2019/20 fel rhan o fis Hanes LGBT.</p> <p></p>
Ystyried y potensial i ddarparu hyfforddiant drwy e-ddysgu	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant	E-ddysgu ymwybyddiaeth traws ar gael	<p>Cwblhawyd - Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth traws bellach ar gael drwy e-ddysgu, ynghyd â gweithdai wyneb yn wyneb ychwanegol ar gael i'r gweithlu.</p> <p></p>
Datblygu modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o Sipsiwn–Teithwyr	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	% y gweithwyr sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu Sipsiwn–Teithwyr	<p>Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth Sipsiwn /Teithwyr i weithwyr allweddol ym maes Tai.</p> <p>Nid yw modiwl e-ddysgu wedi'i ddatblygu, bu problem gyda hyn, ond mae hyfforddiant wyneb yn wyneb arall ar gael. Mae'r holl weithwyr perthnasol yn yr Adran Dai bellach wedi derbyn hyfforddiant</p> <p></p>
Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o Saipsiwn-Teithwyr blynyddol	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	% o weithwyr sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth Sipsiwn–Teithwyr	






<p>Gweithredu Strategaeth Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol</p>	<p>Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu</p>	<p>Nifer y bobl sy'n cael cymorth i aros yn eu cartref eu hunain yn sgil gwneud addasiad i'r cartref.</p>	<p>Cefnogwyd 753 o bobl i aros yn eu cartref eu hunain yn sgil gwneud addasiad. Cyfartaledd nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) oedd 195.83 diwrnod. Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant gorfodol i helpu pobl anabl gyda'r gost o addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartref mor annibynnol â phosibl Camau wedi'u cwblhau</p> <p style="text-align: center;"></p>
<p>Gweithredu Cynllun Gwella Cefnogi Pobl</p>	<p>Cydlynnydd Cymorth Tai</p>	<p>% y rhai sy'n gadael gofal, yn ôl nodwedd warchodedig, sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn</p>	<p>Dywedwyd bod 1.1% o'r rhai a oedd wedi gadael gofal yn ddigartref yn ystod 2019/20. Mae hyn yn cyfateb i 6 ac roedd yn gynnydd o'i flwyddyn flaenorol. Camau wedi'u cwblhau</p> <p style="text-align: center;"></p>
<p>Gweithredu cynllun gweithredu cymunedau Dementia Gyfeillgar</p>	<p>Swyddog Cynllunio a Datblygu</p>	<p>Nifer y digwyddiadau (a'r nifer sy'n manteisio arnynt) sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o ddementia ar draws y sir</p>	<p>Rydym bellach wedi cael ein hachredu fel "Gweithio Tuag at Fod yn Ddementia Gyfeillgar" ac mae gweithgor wedi'i sefydlu. Cynhaliwyd</p>





			wyth digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o ddementia 
Amcan 2 Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyflawni eu potensial llawn			
Gorchwyl	A	Mesur	
Trwy waith y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) codi safonau ddysgwyr sydd â hawl i Gael Prydau Ysgol am Ddim drwy gynnal dadansoddiad o gyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol yn ôl rhyw a phrydau ysgol am ddim	Uwch Reolwr Gwella Ysgolion	Dadansoddiad blynyddol % y plant (yn ôl rhyw, cefndir ethnig, prydau ysgol am ddim, ar gyfer dangosydd pwnc craidd (DPC) ym mhob cyfnod allweddol. % y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wrth gyflawni'r Dangosydd Lefel 1 a Lefel 2 (Pum TGAU A* -C)	Cyflawni (Pum TGAU A* -C) Bechgyn 47.28% Merched 60.08% Yn derbyn prydau ysgol am ddim 26.04% BME 50%
Hyrwyddo cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Stonewall i annog ysgolion i anfon cynrychiolwyr	Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE	Nifer yr athrawon sy'n mynychu hyfforddiant	Cwblhawyd - Cynrychiolwyd ysgolion Sir y Fflint yn yr hyfforddiant. 
Polisi Ailbennu Trawsryweddol drafft ar gyfer ysgolion	Swyddog Ysgolion Iach, Swyddogion Cynhwysiant, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Cyhoeddi polisi Ailbennu Trawsryweddol ar Moodle	Polisi wedi'i ohirio. Mae gwybodaeth i gefnogi ysgolion ar gael ar Hwb






Cynnwys ac ymgynghori â'r gymuned Draws ar bolisi drafft	Swyddog Ysgolion Iach, Swyddogion Cynhwysiant, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc		
Cynllun Cydraddoldeb Drafft ar gyfer ysgolion	Swyddog Ysgolion Iach	Mae pob ysgol yn mabwysiadu polisi wedi'i ddiweddarau	Templed Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddarparu i bob ysgol. Cynhelir gwaith monitro fel rhan o ymweliadau ysgolion iach i benderfynu a yw'r SEP wedi'i fabwysiadu ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. 
Hyrwyddo canllawiau 'Parchu Eraill' i ysgolion	Swyddog Ysgolion Iach; Swyddogion Cynhwysiant; Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	% yr adroddiadau am fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth sy'n digwydd mewn ysgolion	Cwblhawyd. System electronig newydd ar waith i ysgolion roi gwybod am ddigwyddiadau. Cafwyd un adroddiad o fwlio yn seiliedig ar hunaniaeth. 
Amcan 3 Lleihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth			
Gorchwyl	A	Mesur	
Cynnwys cynllun cydraddoldeb fel eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd misol Arweinwyr Perfformiad	Ymgynghorydd Perfformiad Strategol	Cyfradd ymateb i archwilio amrywiaeth yn gwella	Cwblhawyd 



<p>Parhaus. Mae ar ei hôl hi o ran yr amserlen, cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf ar gyfer y cyfnod 2016/17.</p> <p></p>	<p>Parhaus</p> <p></p>	<p>Bu oedi cyn adrodd ond mae hyn ar y gweill. Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf yn 2016/17</p> <p></p>	<p>Cwblhawyd</p> <p></p>	<p>Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyrsiau e-ddysgu Cydraddoldeb yn y Gweithle ar gael. Hyfforddiant troseddau casineb ar gael fel sesiynau e-ddysgu a sgysrsiau ar iechyd a diogelwch.</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2019/20</p>	<p>Cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad blynyddol</p>	<p>Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu</p> <p>Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu a Chynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant</p>	<p>Cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu a'i weithredu</p>	<p>nifer y cyrsiau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a ddarperir</p> <p>nifer y cwynion a weir gan weithwyr o wahaniaethu a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth nifer y cwynion am wahaniaethu a weir gan ymgeiswyr am swydd!</p>	<p>Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu</p>	<p>Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu a Chynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant</p>	<p>Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu</p>	<p>Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant</p>	<p>Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant</p>	<p>Cynnal dadansoddiad cydraddoldeb gweithlu blynyddol o ddata yn unol â'r PSED</p>	<p>Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl neu wirioneddol</p>	<p>Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar wybodaeth am y gweithlu</p>	<p>Hyrwyddo modiwlau e-ddysgu hyfforddiant cydraddoldeb</p>	<p>Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi ar gyfer gweithwyr i'w helpu i gyflawni dyfetswyddau cydraddoldeb</p>
--	---	---	---	--	---	---	--	--	--------------------------------------	--	--------------------------------------	---	---	---	---	--	---	--

			
Cynyddu nifer y prentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd profiad gwaith i'r eithaf	Prif Swyddog Cymuned a Menter; Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid	Nifer a % y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	18% NEET (43 o bobl ifanc allan o 241 a gwblhaodd raglenni'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn 2019/20) Mae hyn bellach yn cael ei gynnwys o fewn cymalau budd cymunedol o fewn y broses gomisiynu/caffael. 
Amcan 4 Lleihau anghydraddoldebau o ran diogelwch personol			
Gorchwyl	A	Mesur	Cynnydd
Gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSSEN) i ddatblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant	Nifer yr adroddiadau am droseddau casineb yn ôl nodwedd warchoddedig	168 o adroddiadau yn ystod 2019/20 o gymharu â 49 yn 2015/16 . Bu cynnydd cyson mewn adroddiadau yn ystod 2016/20, sy'n unol â data cenedlaethol. Cafwyd cyfathrebiadau rheolaidd i annog pobl i adrodd am droseddau oherwydd credir bod pobl yn gyndyn o adrodd am droseddau casineb. 

		Mentrau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi'u gweithredu	Cynllun wedi'i ddatblygu a'i weithredu yn ystod 2019/20 gyda NWPSEN 
Gweithredu hyfforddiant diogelu	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	% yr adroddiadau diogelu oedolion lle mae'r risg wedi'i rheoli.	98% 
Datblygu polisi diogelu sy'n cynnwys Caethwasiaeth Fodern	Panel Diogelu Corfforaethol	Cyhoeddwyd polisi	Cwblhawyd 
Gweithredu cynllun hyfforddi diogelu	Panel Diogelu Corfforaethol	Nifer a % y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant diogelu	Mae 2054 o weithwr wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu ar Drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chwblhaodd 179 y modiwlau e-ddysgu diogelu corfforaethol. 
Datblygu lloches cam-drin domestig i ddynion er mwyn lleihau'r anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	Nifer yr atgyfeiriadau	Lloches bellach ar agor ac yn derbyn atgyfeiriadau. Gwnaed pedwar atgyfeiriad yn ystod 2019/20 
Amcan 5 Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais			
Gorchwyl	A	Mesur	Cynnydd

Gweithredu fframwaith asesu newydd ar gyfer plant a phobl ifanc	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	% y rhieni a adroddodd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am ofal a chymorth eu plentyn	Data cenedlaethol heb ei gyhoeddi. Mae fframwaith newydd ar waith. 
Gweithredu fframwaith asesu newydd ar gyfer gofalwyr a hyfforddiant i ofalwyr	Rheolwr Tîm - Perfformiad a Swyddog Cynllunio a Datblygu	% y gofalwyr a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn ymwneud â chynllunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer y sawl y maent yn gofalu amdano/i	Data cenedlaethol heb ei gyhoeddi. Fframwaith wedi'i roi ar waith. 
Datblygu gweithdrefnau hawdd a hygyrch i bobl gwyno pan fydd pethau'n mynd o chwith.	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid	Nifer a % y cwynion am wahaniaethu	Cwblhawyd - Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am wahaniaethu. 
Amcan 6 Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd			
Gorchwyl	A	Mesur	Cynnydd
Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o Linell Iaith ar draws yr holl wasanaethau	Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid	Nifer y ceisiadau am wybodaeth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau	Contract ar gyfer darparu gwasanaethau cyfieithu yn cael ei ddiweddarau yn barod i'w weithredu 2020/21. Cafwyd 210 o geisiadau am gyfieithiad yn ystod 2019/20, cynnydd bach ers 2018/19. 
Datblygu geiriad safonol ar gyfer pob	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant	Cytuno ar ddatganiad safonol ar gyfer geiriad yr holl ddogfennau	Cwblhawyd

dogfen allweddol i hyrwyddo'r ffaith eu bod ar gael mewn gwahanol fformatau		cyhoeddus sy'n nodi y gellir darparu'r wybodaeth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau	
Datblygu trefn weithio gydgyssylltiedig gyda thimau gwasanaethau cwsmeriaid o fewn y portffolio Cymunedol a Menter i ddarparu dull cyson o gysylltu â chwsmeriaid	Swyddog Strategaeth Tai	Gwybodaeth gyson yn cael ei darparu gan bob tîm	Mae swyddogion yn Nhîm Tai'r Sector Preifat bellach yn gallu cael mynediad at System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. 
Darparu canllawiau i wasanaethau allweddol i'w cefnogi i fonitro cydraddoldeb yn systematig	Ymgynghorydd Polisi Arweinwyr Cydraddoldeb a Chydlyniant a Pherfformiad	Monitro cydraddoldeb yn systematig mewn Addysg, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cwblhawyd. 
Datblygu pecyn cymorth electronig ar gyfer asesiadau effaith	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant	Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb yn rhan o system Rheoli Perfformiad y Cyngor	Cwblhawyd 
Datblygu cymalau safonol ar gyfer contractau i sicrhau y cydymffurfir â dyletswydd cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg	Ymgynghorydd Polisi Cydraddoldeb a Chydlyniant / Gwasanaethau Cyfreithiol	Cymalau safonau ar gyfer contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle	Cwblhawyd 
Parhau i wella amseroedd aros ar	Tai	Amseroedd aros ar gyfer tai wedi'u haddasu o gymharu â thai eraill	Yr amser aros cyfartalog i ymgeiswyr sy'n cael eu hailgartrefu o'r gofrestr tai arbenigol yn 2019/20

<p>yw 686 diwrnod. Yr amser aros cyfartalog i ymgeiswyr heb ofnyion arbenigol oedd 389 diwrnod.</p>			<p>gyfer tai wedi'u haddasu</p>
<p> Cwbiau – 100% wedi'u hyfforddi</p>	<p>Nifer a % y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant</p>	<p>Swyddog Strategaeth Tai</p>	<p>Gweithwyr Cartrefi NEWYDD i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth trawsryweddol</p>
<p> Cwbiau - 100% o weithwyr allweddol yn yr adran Dai wedi'u hyfforddi</p>	<p>Nifer a % y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant</p>	<p>Swyddog Strategaeth Tai</p>	<p>Gweithwyr a chyfrifoldebau Sipsiwn Crwydrol i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth perthnasol</p>
<p> Dewisiadau wedi'u paratoi. Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen i'n SEP 2020/24 newydd</p>	<p>Yr opsiynau a nodwyd</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid</p>	<p>Paratoi opsiynau i ddiwallu anghenion llefy asesedig y gymuned Teithwyr</p>